Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio .................................. 4

Yn yr orsaf bleidleisio .................................................................. 6

Cefnogaeth mewn gorsafoedd pleidleisio ................................ 8

# Sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio





**Gorsaf bleidleisio** ydy'r lle rydych chi'n mynd i bleidleisio.




Mae **gorsafoedd pleidleisio** fel arfer mewn lleoedd fel llyfrgelloedd, ysgolion, a chanolfannau cymunedol.




Os ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio, fe fyddwch chi'n cael **cerdyn pleidleisio** yn y post.




Mae **cardiau pleidleisio** yn gardiau bach sy'n dweud pa ddyddiad mae'r etholiad a ble mae eich gorsaf bleidleisio.




Darganfyddwch am gofrestru i bleidleisio yma: **Pwy all bleidleisio**.




**Dim ond yn yr orsaf bleidleisio sydd wedi'I henwi ar eich cerdyn pleidleisio rydych chi'n gallu pleidleisio.**



Rydych chi hefyd yn gallu dod o hyd i'ch gorsaf bleidleisio ar-lein: **Canfod gorsaf bleidleisio**.





Does dim angen i chi fynd â'ch cerdyn pleidleisio gyda chi i bleidleisio.




Dydych chi ddim angen ID â llun i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

# Yn yr orsaf bleidleisio




Mae gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm ar ddiwrnod yr etholiad.




**Mae etholiad nesaf y Senedd ar ddydd Iau 7 Mai 2026.**



Pan fyddwch chi'n cyrraedd eich gorsaf bleidleisio, mae angen i chi ddweud wrth y staff eich enw a'ch cyfeiriad.



Fe fyddan nhw'n rhoi papur pleidleisio i chi – dyma'r papur rydych chi'n ei ddefnyddio i farcio'ch pleidlais.




Fe fydd y papur pleidleisio yn rhestru'r pleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr annibynnol rydych chi'n gallu bleidleisio drostyn nhw.



Fe fyddwch chi'n mynd â'ch papur pleidleisio i fwth. Mae hyn er mwyn i chi bleidleisio'n breifat – does neb arall yn gallu gweld pwy rydych chi'n pleidleisio drostyn nhw.



Fe fydd cyfarwyddiadau yn y bwth ac ar eich papur pleidleisio ar sut i bleidleisio.

# Cefnogaeth mewn gorsafoedd pleidleisio




Rydych chi'n gallu edrych I weld os ydy eich gorsaf bleidleisio yn hygyrch ar-lein: **Canfod gorsaf bleidleisio**.



Rydych chi'n gallu mynd i wefan eich cyngor i ddarganfod pa gymorth rydych chi'n gallu ei gael i'ch helpu i bleidleisio.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma: gov.uk/contact-electoral-registration-office



Os nad ydych chi’n siŵr beth i’w wneud, rydych chi’n gallu gofyn i staff yn eich gorsaf bleidleisio am help hefyd.




Darganfyddwch fwy am gefnogaeth yma: **cefnogaeth i bleidleisio**.